**PWYLLGOR CENEDLAETHOL COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU**
**COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 GORFFENNAF 2010**
**YM MANGOR**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | Jon Owen Jones, Cadeirydd | Judith Webb |
| | Roger Cooper | John Lloyd Jones |
| | Trefor Owen | Peter Garson |
| | Clive Thomas | |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| | Martin Veale | Bill MacDonald |
| | James Laing (Ysgrifenyddiaeth) | |

**Ymddiheuriadau:** Rory O'Sullivan

**CYFLWYNIAD**

1. Croesawodd JOJ Bill MacDonald i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau gan ROS.

**COFNODION A MATERION YN CODI**

2. Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai yn gywir. Rhoddodd PG y wybodaeth ddiweddaraf ar adolygiad gwyddonol Niwbwrch, nad oedd wedi'i gwblhau eto fel y cofnodwyd o'r blaen.

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR**

3. Cyflwynodd TMO ei adroddiad ac ychwanegodd fod y Gweinidog, ar hyn o bryd, yn ymdrin â chyflwyniad ar drosglwyddo grantiau coetiroedd i Glastir. Roedd phytophthora ramorum wedi'i esgyn i Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chadwyd achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl.

**ADRODDIAD ARIANNOL**

4. BA09/10 - Dywedodd MV wrth y pwyllgor bod y broses Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon bron wedi'i chwblhau. Caiff yr Adroddiad ei ddosbarthu i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yr wythnos nesaf.

5. BA10/11 - Esboniodd MV nad oedd yr adroddiad yn cynnwys llawer o fanylion ariannol oherwydd gweithgareddau deufis yn unig oedd ar gael i adrodd amdanynt. Cadarnhaodd fod y Bwrdd Rheoli wedi ystyried y Cynllun Busnes o ran cynilion ac effeithlonrwydd wrth ymdrin â chwsmeriaid yn ystod eu trafodaethau diweddar. Nid oedd LICC wedi gwneud cyhoeddiad ynghylch cynilion yn ystod y flwyddyn.

Gofynnodd JOJ a RC am fwy o fanylion am y ffigurau yn Atodiad 1. Tynnodd TMO sylw at y cysylltiad rhwng *Coetiroedd i Gymru*, y Cynllun Corfforaethol a chostau rhaglenni a gellir dadansoddi'r costau hynny i lefel prosiect. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

**Cam gweithredu: Dadansoddiad o'r ffigurau yn Atodiad 1 i'w darparu i'r PC** **MV**

**PROSIECT YMCHWIL YSTAD GOETIR LLYWODRAETH Y CYNULLIAD**

6. Gosododd Bill MacDonald yr Adroddiad Interim gerbron y pwyllgor a dilynodd trafodaeth fanwl ynghylch y cefndir a'r opsiynau a gyflwynwyd. Gwnaeth aelodau'r Pwyllgor sylwadau am yr Adroddiad Interim a diolchodd JOJ i Bill MacDonald am adroddiad manwl ac amserol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r adroddiad gael ei anfon at y Gweinidog.

**POLISI DATBLYGIAD A MENTER ECONOMAIDD**

7. Cyflwynodd CT y seithfed o'r wyth safbwynt polisi. Cadarnhaodd CT fod y polisi yn nodi blaenoriaethau a oedd yn gysylltiedig ag Ardaloedd Adfywio Strategol yng Nghymru. Rhoddodd y Pwyllgor sylwadau a chymeradwyo'r safbwynt polisi.

**ADRODDIAD PANEL YMGYNGHOROL Y STRATEGAETH GOETIROEDD**

8. Cychwynnodd RC ei adroddiad drwy ddatgan mor addysgiadol oedd yr ymweliadau â choetiroedd wedi bod a pha mor dda y'u trefnwyd. Rhannodd y casgliadau cyffredinol yn dilyn yr ymweliadau a nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad.

**COETIROEDD A DATBLYGU**

9. Atgoffodd JLJ y Pwyllgor ei fod yn Gomisiynydd Cofrestredig y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Nododd y Pwyllgor y mater o drefn ond cytunwyd nid oedd hyn yn ei wahardd rhag cymryd rhan yn y drafodaeth. Amlinellodd CT y safbwynt polisi o ran coetiroedd yr effeithir arnynt gan ddatblygiadau na wnelont â choedwigaeth a chadarnhaodd y byddai'r safbwynt polisi yn cael ei gyhoeddi pan y'i cwblheir. Cymeradwyodd y Pwyllgor y safbwynt yn atodiad 1 gan argymell bod CCC yn cadw'r hawl i ofyn am weld ceisiadau cynllunio.

**Y Cyfarfod Nesaf - Dydd Gwener 24 Medi 2010 yng Nghaerdydd**